Mae’r mentoriaid mwyaf effeithiol...

Yn ystyried eu hunain yn addysgwyr athrawon. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o addysgeg addysg athrawon.

Yn cynllunio profiadau dysgu i fyfyrwyr sy’n eu helpu i wneud gwelliannau.

Yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i addysgu myfyrwyr sut i addysgu, gan gynnwys datblygu gwybodaeth am y pwnc a datblygu addysgeg.

Yn cefnogi medrau addysgu, cynllunio ac asesu myfyrwyr i’w helpu i ddeall

sut mae disgyblion yn datblygu’u medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth dros brofiadau dilynol.

Yn gwrando, yn holi ac yn herio myfyrwyr yn effeithiol i fyfyrio’n feirniadol.

Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ymchwil yn yr ystafell ddosbarth, yn darllen ymchwil ac yn gwneud ymchwil.

Maent yn helpu myfyrwyr i lunio cysylltiadau rhwng eu haddysgu a’u theori addysgol.

Yn gyfarwydd ag elfennau’r rhaglen yn y brifysgol yn dda ac yn helpu myfyrwyr i lunio cysylltiadau defnyddiol â’u dysgu yn yr ysgol.

Yn cynnwys myfyrwyr mewn ‘sgyrsiau dysgu’ – trafodaeth sy’n annog meddwl beirniadolfel strategaeth ddysgu ac addysgu.

Maent yn defnyddio’u medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant.

Maent eu hunain yn fodelau da o arfarnu effeithiol a myfyrio strwythuredig.

Yn cefnogi lles myfyrwyr yn dda trwy adeiladu perthnasoedd proffesiynol cryf, rhoi cyngor

ac arweiniad amserol a meithrin amgylchedd lle y mae myfyrwyr yn teimlo’n hyderus i brofi syniadau yn ymarferol.

Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y medrau a’r ymddygiadau i reoli eraill,

cyflwyno adborth effeithiol a rheoli perthnasoedd heriol.

Yn defnyddio’r safonau athro cymwysedig i annog ymagwedd gyfannol a phersonol at ddod yn athro.

Yn gweithio mewn ysgolion lle mae ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol yr holl staff a strategaeth glir ar gyfer datblygu addysgu.

Yn cael eu dewis oherwydd eu medrau, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u rhinweddau personol.

Yn deall dilyniant mewn AGA ac yn cydnabod bod angen amrywiol ymagweddau at fentora ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion,

medrau a phriodweddau gwahanol, ac sydd wedi cyrraedd camau gwahanol yn eu datblygiad.

Yn gwella’u haddysgu eu hunain yn rhagweithiol.

Maent yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol i ddatblygu’u medrau addysgu ac ymchwil eu hunain, gan archwilio’r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.

Yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig sy’n gywir, yn deg ac yn rhoi barn gyfannol am gynnydd y myfyriwr gydag amser.

Maent yn gosod targedau sy’n llunio rhan o broses ddysgu gydlynol lle y caiff myfyrwyr eu hannog i fyfyrio a darganfod atebion drostynt e hunain.

Maent yn targedu myfyrwyr tuag at ddysgu pellach yn uniongyrchol.

Maent yn fodel da ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty’s Inspectorate for Education and Training in Wales